



**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**

# **POLISI DERBYN**

## **2018/19**

# RHAN UN

## POLISI DERBYN

### A. DEWIS YSGOL

Mae derbyn plant i ysgolion yn cael ei reoli a'i weinyddu gan 'Awdurdod Derbyniadau'. Yn achos ysgolion cymunedol, yr awdurdod derbyn yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a adnabyddir hefyd fel yr Awdurdod.

Yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr (ffydd), corff llywodraethu'r ysgol unigol yw ei hawdurdod derbyn.

Oddi fewn i'r Fwrdeistref Sirol mae gan bob ysgol ei dalgylch dynodedig. Mae'r rhan fwyaf o rieni/gofalwyr yn anfon eu plentyn i'r ysgol 'leol', ond mae rhai rhieni/gofalwyr yn ymarfer eu hawl i ddatgan blaenoriaeth am ysgol wahanol. Ym mhob achos bydd angen i rieni/gofalwyr i ddisgyblion sydd am newid ysgolion ym mis Medi 2018 ddynodi, ar y ffurflen gais swyddogol, eu hysgol ddewisol. Nid oes gan neb yr hawl awtomatig i fynychu ysgol, ond caiff yr holl geisiadau swyddogol a gyflwynir cyn y dyddiad cau eu hystyried. **Caiff ffurflen gais ei hanfon i'r holl rieni/gofalwyr perthnasol yn ystod yr wythnos yn dechrau 11 Medi 2017, a bydd angen eu dychwelyd i Dîm Derbyn Ysgolion, Adran Ysgolion, Uned 5, Parc Busnes Triongi, Pentrebach, Merthyr Tudful, CF48 4TQ er mwyn paru dewisiadau rhieni/ gofalwyr gydag argaeledd lleoedd yn eu hysgol ddewisol. Dylid dychwelyd y ffurflen erbyn:**

<b>Carfan Derbyn</b>	<b>Dychwelyd y ffurflen erbyn</b>
Ysgol Uwchradd Blwyddyn 7	20 Hydref 2017
Dosbarth Derbyn Ysgol gynradd (4 oed cyn mis Medi 2018)	17 Tachwedd 2017
Dosbarth Meithrin Ysgol Gynradd (3 oed cyn 1 Medi 2018)	15 Rhagfyr 2017
Dosbarth Cyn Meithrin Ysgol Gynradd – derbyn yn <b>Nhymor y Gwanwyn 2019</b> (3ydd pen blwydd rhwng 1 Medi 2018 a 31 Rhagfyr 2018)	19 Hydref 2018
Dosbarth Cyn Meithrin Ysgol Gynradd – derbyn yn <b>Nhymor yr Haf 2019</b> (3ydd pen blwydd rhwng 1 Ionawr 2019 a 31 Mawrth 2019)	25 Ionawr 2019

Mae angen i rieni/gofalwyr ymgeisio am le:

- Derbyn i ddosbarth cyn meithrin;
- Derbyn i ddosbarth/ysgol feithrin;

- Derbyn i ddosbarth derbyn;
- I drosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd; ac
- Ar unrhyw adeg y maen nhw am drosglwyddo eu plentyn o'r naill ysgol i'r llall.

Ymhellach, gall rhieni/gofalwyr fynegi eu hawl i ddewis ysgol Cyfrwng Cymraeg, neu ysgol eglwys wirfoddol a gynorthwyr.

**Rhaid** i'r awdurdod a llywodraethwyr ysgol gydsynio ag unrhyw flaenoriaeth a fynegir, ar yr amod bod lle oddi fewn i'r ysgol. Fodd bynnag, rhaid i'r penderfyniad o ran derbyn ysgolion ystyried y canlynol:

- Darpariaeth gyffredinol o addysg effeithlon a defnydd effeithlon o adnoddau;
- Deddf Addysg 1998, sy'n caniatáu awdurdod derbyn i wrthod â chydsynio â blaenoriaeth am gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn ail waharddiad neu waharddiad parhaol dilynol.
- Rhaid i geisiadau ar ran disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch gael eu hystyried gan ystyried y galw am leoedd yn y dyfodol oddi fewn i ardal leol yr ysgol;
- Canllawiau cyfyngiadau maint dosbarth, sy'n cyfyngu'r nifer o ddisgyblion i 30 mewn ysgolion cynradd.

Ni fydd disgybl sy'n mynychu ysgol y tu allan i'w ddalgylch dynodedig lleol ac sydd yna'n gwneud cais i fynychu'r ysgol leol yn yr ardal, yn cael yr hawl awtomatig i gael ei dderbyn i'r ysgol honno. Bydd y penderfyniad o ran derbyn yn dibynnu ar niferoedd derbyn yr ysgol honno a'r nifer o ddisgyblion yn y grŵp blwyddyn penodol, hynny yw, a oes yna le ai peidio.

Fel arfer caiff y dalgylchoedd ar gyfer ysgolion sy'n darparu addysg gynradd eu grwpio gyda'i gilydd i ffurfio dalgylch dolennog ar gyfer pob ysgol uwchradd a gynhelir. **Rhaid** i ddisgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch ysgol uwchradd geisio mynediad drwy'r trefniadau cyhoeddedig. **Nid** yw disgyblion sydd wedi eu derbyn/sy'n mynychu ysgol gynradd fwydo yn rhoi mynediad awtomatig iddynt i'r ysgol uwchradd ddewisol.

Nod yr holl ysgolion yn yr awdurdod yw darparu cyfle addysgiadol i'w disgyblion sy'n gweddu anghenion pob plentyn unigol orau. Bydd gan rai disgyblion anghenion dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgiadol arbennig ac, mewn rhai enghreifftiau, bydd rhieni/gofalwyr yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad arbenigol o ran dewis ysgol i'w plentyn. Caiff yr holl rhieni/gofalwyr eu hannog i drafod agweddau o bryder posibl gyda'u Pennaeth lleol sydd hefyd â mynediad at gyngor arbenigol. Mae polisi'r Awdurdod yn cymryd i ystyriaeth Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anabledd 2001.

## **B. CYFYNGIAD DERBYN**

1. Mae nifer derbyn gan bob ysgol sy'n cael ei benderfynu yn unol â maint ffisegol yr ysgol mewn cydsyniad â chyfrifiad 'Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'. Mae'r nifer derbyn yn cynrychioli'r nifer o ddisgyblion a ddylai gael eu derbyn i flwyddyn derbyn arferol ysgol (hynny yw, dosbarth derbyn mewn ysgol gynradd a Blwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd) os oes digon o geisiadau derbyn wedi eu derbyn. Fel arfer, ni ddylid rhagori ar y rhif derbyn. Ym mhob un o'r amgylchiadau, ac eithrio'r rhai mwyaf eithriadol, byddai'r nifer derbyn yn cael eu cymhwysu i grwpiau blwyddyn yn hytrach na'r flwyddyn derbyn arferol.
2. Fel arfer bydd plentyn yn cael cynnig ei dderbyn i ysgol ddewisol y rhieni/gofalwyr, oni bai bod y nifer derbyn wedi ei gyrraedd. Pan fo ceisiadau'n fwy na'r lleoedd sydd

ar gael, bydd y meini prawf gordanysgrifio yn cael eu cymhwyso.

3. Mae maint dosbarthiadau babanod yn cael ei gyfyngu gan y gyfraith i 30 neu lai o ddisgyblion. Os yw'r rhif derbyn perthnasol wedi ei gyrraedd, ni fydd yr awdurdod yn derbyn plentyn i grŵp oedran pan fyddai gwneud hynny'n gwrthdaro yn erbyn deddfwriaeth maint dosbarth.  
Fodd bynnag, gall rhai mathau o blant ('disgyblion eithriedig') fod yn eithriad at ddibenion pennu a yw'r ysgol yn mynd heibio'r cyfyngiad o 30. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol, bellach:-
  - 'plant sy'n derbyn gofal' a 'phlant oedd arfer derbyn gofal' sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r rownd derbyn arferol;
  - Disgyblion sy'n dymuno addysg mewn ysgol o gymeriad crefyddol penodol ac sy'n cael eu derbyn i ysgol o'r fath y tu allan i'r rownd derbyn arferol a;
  - Disgyblion dosbarth derbyn sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r rownd derbyn arferol ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol pan nad yw'r ysgol wedi cyrraedd ei nifer derbyn ond ei bod eisoes wedi trefnu ei dosbarthiadau.
  - Pan mai dim ond un lle sydd ar gael ac mae plant genedigaeth luosog yn cael y flaenoriaeth nesaf (efeilliaid, tripledi), i gydymffurfio â deddfwriaeth maint dosbarth babanod, bydd rhieni'n cael dewis lle ar adeg gwneud cais. Gall y rheoliadau ganiatáu eithriadau i gyfyngiadau maint dosbarth o dan yr amgylchiadau hyn.
4. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn y Fwrdeistref Sirol hefyd yn darparu addysg feithrin. Fodd bynnag, **nid oes mynediad awtomatig ar gyfer:**
  - Dosbarth meithrin o grŵp cyn meithrin (ar gyfer disgyblion 3 oed erbyn 1 Medi);
  - Derbyn i blant (4 oed erbyn 1 Medi) sydd wedi mynychu dosbarth meithrin mewn ysgol.

**Bydd ceisiadau am leoedd yn ofynnol a chaiff meini prawf gordanysgrifio eu cymhwyso os yw'n angenrheidiol.**

Dyma'r oed arferol ar gyfer derbyn ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful:

3-4 oed mewn dosbarth meithrin neu ysgolion meithrin;  
4-5 oed mewn ysgolion cynradd;  
11-12 oed mewn ysgolion uwchradd.

## C TREFNIADAETH YSGOLION

### Mae pob ysgol yn yr awdurdod yn gydaddysgol

#### 1. Addysg Feithrin

Er bod safbwynt hir dymor yr awdurdod o'r farn y dylai pob plentyn gael mynediad at addysg feithrin ran amser o ddechrau'r tymor yn dilyn trydydd pen blwydd y plentyn, yn ymarferol, mae plant yn dechrau mynychu ysgolion meithrin yn 3 neu 4 oed, gan ddibynnu

ar gyfyngiadau nifer mewn dosbarth a galw lleol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r awdurdod lleol yn ystyried pwnc llosg addysg feithrin ac felly mae'n bosibl y bydd y sefyllfa'n newid yn y dyfodol.

Mae addysg feithrin yn ddarpariaeth anstatudol ac felly nid oes hawl apelio yn erbyn penderfyniad derbyn yr Awdurdod.

### **Derbyniadau cyn meithrin**

#### **Gwybodaeth Bwysig**

**Ni fydd** disgyblion sy'n cael eu derbyn i **ddosbarth cyn meithrin yn cael yr hawl awtomatig i barhau â'u haddysg yn yr ysgol honno**. Tra gwneir pob ymdrech i wneud lle i'r disgyblion hynny, **rhaidd** cyflwyno cais ffurfiol i drosglwyddo i'r dosbarth meithrin (wrth drosglwyddo o'r Cyn Meithrin). **Mae'n bosibl y cyfyd achlysuron pan, yn sgil gordanysgrifio, na fydd yn bosibl i'r trosglwyddiad hwn ddigwydd.**

Mae lleoedd cyn meithrin yn cael eu darparu yn gyfan gwbl amodol ar argaeledd ac ni ellir eu gwarantu mewn unrhyw ysgol. Pan ystyrir bod lleoedd meithrin yn llawn, ni chaiff unrhyw ddisgyblion cyn meithrin pellach eu derbyn.

**Nid oes hawl apelio am leoedd meithrin a chyn meithrin.**

#### **Dyddiadau allweddol ar gyfer gwneud cais**

<b>Carfan Derbyn</b>	<b>Dychwelyd y ffurflen erbyn</b>
Dosbarth Cyn Meithrin Ysgol Gynradd - derbyn <b>Tymor y Gwanwyn 2019</b> (3ydd pen blwydd rhwng 1 Medi 2018 a 31 Rhagfyr 2018)	19 Hydref 2018
Dosbarth Cyn Meithrin Ysgol Gynradd - derbyn <b>Tymor yr Haf 2019</b> (3ydd pen blwydd rhwng 1 Ionawr 2019 a 31 Mawrth 2019)	25 Ionawr 2019

### **Derbyniadau Meithrin**

#### **Gwybodaeth Bwysig**

**Ni fydd** disgyblion sy'n cael eu derbyn i **ddosbarth meithrin yn cael yr un hawl awtomatig i barhau â'u haddysg yn yr ysgol honno**. Tra gwneir pob ymdrech i wneud lle i'r disgyblion hyn, **rhaidd** cyflwyno cais ffurfiol i drosglwyddo i'r dosbarth Derbyn (wrth drosglwyddo o'r Meithrin). **Mae'n bosibl y cyfyd achlysuron pan, yn sgil gordanysgrifio, na fydd yn bosibl i'r trosglwyddiad hwn ddigwydd.**

#### **Dyddiadau allweddol ar gyfer gwneud cais**

<b>Carfan derbyn</b>	<b>Dychwelyd y ffurflen erbyn</b>
Dosbarth Meithrin Ysgol Gynradd (3 oed cyn 1 Medi 2018)	15 Rhagfyr 2017

## Meini Prawf Derbyn Disgyblion i ddosbarth meithrin / ysgol

I gael manylion ynghylch meini prawf gordanysgrifio ar gyfer derbyn disgyblion cyfeiriwch at “Beth sy’n digwydd pan fydd gormod o blant yn gwneud cais am leoedd?”

### **2. Addysg Gynradd**

Mae’n ofynnol yn ôl y gyfraith bod pob plentyn yn derbyn addysg lawn amser o ddechrau tymor yr ysgol ar ôl ei ben blwydd yn bump oed. Mae gan bob plentyn yr hawl i ddechrau ysgol ar ddechrau’r flwyddyn ysgol (mis Medi) y mae’n cael ei ben blwydd yn bump oed. Bydd plant yn gallu mynychu ysgol pan maen nhw’n dair neu’n bedair oed a dylai rhieni drafod y ddarpariaeth hon gyda staff y Tîm Derbyn Ysgolion, Adran Ysgolion. Caiff plant rhwng 3/4-11 oed eu cydnabod fel disgyblion yn derbyn addysg gynradd. Ym Merthyr Tudful caiff addysg ei darparu un ai mewn ysgol feithrin neu mewn ysgol gynradd gyda disgyblion 3/4-11 mlwydd oed.

### **3. Derbyn i Ddosbarth Derbyn**

Mae’n rhaid i rieni/ gofalwyr plant sy’n mynychu dosbarth meithrin mewn ysgol, neu ysgol feithrin fwydo, wneud cais i’r brif ysgol pan fydd y plentyn yn cyrraedd oed derbyn i ysgol gynradd. Nid yw plant o’r fath yn trosglwyddo’n awtomatig.

### **4. Derbyn i Ysgolion Cynradd**

Gall disgyblion sy’n cyrraedd pump oed yn ystod y flwyddyn ysgol gael eu derbyn i adrannau babanod ar ddechrau’r flwyddyn ysgol ym mis Medi.

Dylai rhieni/gofalwyr hysbysu’r awdurdod lleol ymlaen llaw os oes plentyn ganddynt sydd wedi cyrraedd 4 oed erbyn 31 Awst 2018. Caiff ceisiadau derbyn eu hanfon allan yn ystod tymor yr Hydref, ac mae’n bwysig nad ydych yn colli allan ar le yn sgil cyflwyno cais yn hwyr. Er bod lleoedd yn cael eu cynnig gan yr awdurdod lleol, mae’n bosibl y bydd rhieni/gofalwyr hefyd am adael i’w hysgol gynradd leol wybod bod ganddynt blentyn sy’n dynesu at oedran ysgol. Os yw rhieni/gofalwyr yn ansicr pa ysgol sydd fel arfer yn gwasanaethu eu hardal, dylent gysylltu â’r Adran Ysgolion, Tîm Derbyn Ysgolion am gyngor (01685 724620).

Os yw rhieni/gofalwyr am i’w plentyn fynychu ysgol gynradd **nad yw’n** gwasanaethu eu hardal, yna dylent gysylltu â’r Adran Ysgolion, Tîm Derbyn Ysgolion am gyngor (01685 724620). Dylai ceisiadau derbyn o’r fath gael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl ac yn ôl yr amodau yn y trefniadau a gyhoeddwyd.

### **5. Newid Ysgolion: Addysg Gynradd**

Mae newid ysgolion yn ystod addysg gynradd plentyn yn gam difrifol. Gall penderfyniad o’r fath fod yn amhosibl ei osgoi, e.e. o ganlyniad i’r teulu’n symud tŷ ac mawn amgylchiadau o’r fath bydd angen i rieni/gofalwyr gysylltu â’r Adran Ysgolion, Tîm Derbyn Ysgolion am gymorth (01685 724620) a hysbysu eu hysgol gyfredol. Os yw rhieni/gofalwyr am i’w plentyn drosglwyddo o’r naill ysgol i un arall, dylent yn gyntaf, drafod y sefyllfa gyda’r

Pennaeth cyfredol. Os, yn dilyn y drafodaeth hon, bod rhieni/gofalwyr yn parhau i fod eisiau trosglwyddo eu plentyn i ysgol newydd dylent gysylltu â'r Tim Derbyn Ysgolion cyn gwneud y cais. Os oes yna le gwag addas ar gael, caiff plentyn ei dderbyn i'r ysgol. Gall dosbarthiadau gynnwys mwy nag un grŵp oedran, ac mewn achos o'r fath, bydd gan y pennaeth y dasg o leoli'r plentyn yn y dosbarth mwyaf addas. Mae'r Llywodraeth wedi cyfyngu'r nifer o blant sy'n gallu mynychu dosbarth cynradd i 30 disgybl yn Nosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Canlyniad hyn, o bosibl, yw na fyddai lle gwag addas ar gael.

## **6. Derbyn i Ysgolion Uwchradd**

Bydd plant yn trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd ar ddechrau'r flwyddyn ysgol yn dilyn eu hunfed pen blwydd ar ddeg. Rhaid i bob trosglwyddiad o'r fath gael ei wneud drwy gyfrwng ffurflen gais wedi ei chwblhau. Os cafodd plentyn ei eni rhwng 1 Medi 2006 a 31 Awst 2007, bydd y plentyn yn awtomatig yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol uwchradd leol ym Medi 2018. Bydd penaeithiaid ysgolion cynradd yn gallu hysbysu rhieni/gofalwyr o drefniadau trafniadaeth y mae'r awdurdod yn eu mabwysiadu. Os yw rhieni/gofalwyr am i'w plentyn fynychu ysgol uwchradd nad yw'n gwasanaethu eu hardal, yna dylent gysylltu â'r Adran ysgolion, Tim Derbyn Ysgolion, am gyngor (01685 724620). Dylai ceisiadau am dderbyniadau o'r fath gael eu gwneud cyn gynted ag sy'n bosibl yn ôl yr amodau yn y trefniadau cyhoeddus.

## **7. Newid Ysgolion Uwchradd**

Mae newid ysgolion yn ystod addysg uwchradd plentyn yn gam difrifol. Gall penderfyniad o'r fath fod yn amhosibl ei osgoi, e.e. o ganlyniad i'r teulu'n symud tŷ ac mewn amgylchiadau o'r fath bydd angen i rhieni/gofalwyr gysylltu â'r Adran Ysgolion, Tim Derbyn Ysgolion am gymorth (01685 724620) a hysbysu eu hysgol gyfredol. Os yw rhieni/gofalwyr am i'w plentyn drosglwyddo o'r naill ysgol i un arall, dylent yn gyntaf, drafod y sefyllfa gyda'r Pennaeth cyfredol. Os, yn dilyn y drafodaeth hon, bod rhieni/gofalwyr yn parhau i fod eisiau trosglwyddo eu plentyn i ysgol newydd dylent gysylltu â'r Tim Derbyn Ysgolion am gyngor cyn gwneud y cais.

Os nad yw'r grŵp oedran perthnasol yn yr ysgol sy'n derbyn wedi cyrraedd cyfyngiad derbyn cyhoeddus yr ysgol (yn cynnwys, ble y bo'n briodol, y nifer cydnabyddedig o leoedd wrth gefn) ar gyfer plant y mae eu rhieni/gofalwyr eisoes wedi gwneud cais am le yn yr ysgol ar eu rhan, yna dylai'r plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol. Dylid nodi fod dewisiadau cwricwlwm yn gallu amrywio o ysgol i ysgol.

## **8. Polisi Iaith Gymraeg**

Yn unol ag Adran 354 Deddf Addysg 1996, y mae'n bolisi gan yr Awdurdod Lleol y dylai pob plentyn gael y cyfle i ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg. Caiff darpariaeth ei gwneud ar gyfer hyn yn y modd canlynol:

- Y Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg:
- 1. Caiff y Gymraeg ei dysgu i holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 1. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau llafar oddi fewn i gyd-destun ystyrion. Caiff defnydd digwyddiadol o'r iaith yn ystod y diwrnod ysgol ei annog.
- 2. Caiff y Gymraeg ei datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2 gyda mwy o

bwyslais ar sgiliau darllen ac ysgrifennu.

3. Ers mis Medi 1999, mae'r Gymraeg wedi cael ei haddysgu i holl ddisgyblion Cyfnodau Allweddol 3 a 4.
  - Darpariaeth ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg:
    1. Mae Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gael mewn ysgolion cynradd i'r holl ddisgyblion y mae eu rhieni yn dewis Addysg Cyfrwng Cymraeg ar eu cyfer:
      - Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful
      - Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd-y-Grug
    2. Er mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu, mae safonau priodol y Saesneg yn cael eu cynnal hefyd.
    3. Bydd disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn gallu parhau â'u haddysg mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol. Mae gan yr Awdurdod Lleol bartneriaeth lwyddiannus gydag Ysgol Gyfun Rhydywaun yn Rhondda Cynon Taf.

Mae rhaid i Benaethiaid ysgolion Cyfrwng Cymraeg, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Lleol, gymhwyso'r meini prawf derbyn a osodwyd yn flaenorol i benderfynu ar flaenoriaethau derbyniadau.

Ni fydd disgyblion sy'n byw y tu allan i ddalgylch dynodedig yr ysgol, sy'n cael eu derbyn i ddsbarth meithrin, yn meddu ar yr hawl 'awtomatig' i barhau â'u haddysg yn yr ysgol honno. Tra gwneir pob ymdrech i wneud lle i ddisgyblion o'r fath, rhaid gwneud cais ffurfiol ar gyfer trosglwyddo i'r adran fabanod ar yr amser priodol.

## E. DERBYN I YSGOL WIRFODDOL A GYNORTHWYIR

Ceir pedair ysgol wirfoddol o a gynorthwyir ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, sy'n cael eu hariannu yn unol â hynny gan yr Awdurdod Lleol, ond sy'n cael eu rheoli a'u rhedeg gan yr Awdurdod Addysg Esgobaethol Babyddol mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol.

Mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am reoli derbyniadau i'r ysgol. Dylai cais derbyn gael ei anfon i glerc y corff llywodraethu perthnasol:

<b>Ysgol Gynradd Gatholig Sant Aloysius</b> Ffordd Cedrwydd, Ystâd y Gurnos, Merthyr Tudful, CF47 9PA	<b>Pennaeth: Mrs K Lewis</b> <b>Ffôn: (01685) 351809</b>
<b>Ysgol Gynradd Gatholig Sant Illtyd</b> Heol Greigiog, Dowlais, Merthyr Tudful, CF48 3BT	<b>Pennaeth Dros Dro:</b> <b>Mrs K Wathan</b> <b>Ffôn: (01685) 351811</b>
<b>Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair</b> Heol Caedraw, Merthyr Tudful, CF47 8HA	<b>Pennaeth: Mrs K Wathan</b> <b>Ffôn: (01685) 351802</b>
<b>Ysgol Uwchradd Gatholig Esgob Hedley</b>	<b>Pennaeth: Mrs M Harris</b>



Heol Gwaunfarren, Penydarren, Merthyr Tudful, CF47 9AN	<u>Ffôn:</u> (01685) 351860
---	-----------------------------

## **F. TREFNIADAU DERBYN I DDISGYBLION SYDD AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

Mae'n bosibl y bydd angen mynediad at ddarpariaeth arbenigol ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, fel Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD). Caiff derbyn disgybl i Ganolfan Adnoddau Dysgu ei bennu drwy banel aml-asiantaeth a'i adolygu'n rheoliadd i sicrhau ei fod yn parhau i fod y ddarpariaeth fwyaf priodol i'r plentyn.

Pan fo plentyn wedi mynychu CAD Blynyddoedd Cynnar, nid oes hawl awtomatig ganddo i fynychu CAD Cyfnod Allweddol 2, byddai hyn yn cael ei bennu gan yr Awdurdod Derbyn.

Os yw plentyn wedi gwneud digon o gynnydd i ddychwelyd i addysg brif ffrwd, byddai angen gwneud cais iddo gael ei dderbyn i'w ysgol yn ei ddalgylch. Byddai rhieni/gofalwyr yn parhau â'r hawl i fynegi dewis. Mewn achos o'r fath, byddai unrhyw gais derbyn yn cael ei drin yr un fath yn union ag unrhyw gais arall am addysg brif ffrwd ac felly byddai'n amodol ar y broses dderbyn gyhoeddedig.

### **Disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ond heb ddatganiadau**

Mae trefniadau derbyn i blant ag anghenion dysgu ychwanegol ond sydd heb ddatganiad yn cael eu trin ar yr un sail â cheisiadau eraill. Mae ceisiadau mewn perthynas â phlant o'r fath yn cael eu hystyried ar sail meini prawf derbyn yr Awdurdod Lleol.

### **Disgyblion sydd â datganiadau anghenion dysgu ychwanegol**

Os oes gan blentyn ddatganiad anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael ei gynnal gan yr Awdurdod Lleol, bydd yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am gynghori ynghylch darpariaeth addysgiadol arbennig i'w wneud gan yr ysgol, ac o ran ystyried addasrwydd yr ysgol wrth ddod â'r datganiad i ben neu yn dilyn adolygiad blynyddol.

Caiff pob ysgol adnoddau priodol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol drwy ei chyllideb ei hun. Caiff rhai ysgolion fwy o adnoddau gydag unedau integredig i fynd i'r afael ag anghenion dysgu ychwanegol.

Os yw rhiant/gofalwr i blentyn sydd â datganiad am apelio yn erbyn yr ysgol a enwir yn y datganiad, neu os nad oes unrhyw ysgol wedi ei henwi, gellir cyflwyno apêl i Dribiwnlys Cymru, Anghenion Addysgiadol Arbennig, Uned 32, Ddole Road, Parc Menter Llandrindod, Llandrindod, Powys, LD1 6PF, Ffôn: 01597829800, E-bost: [tribunalenquiries@wales.qsi.gov.uk](mailto:tribunalenquiries@wales.qsi.gov.uk).

## **G. TREFNIADAU AG AWDURDODAU LLEOL CYMDOGOL**

Gall rhieni wneud cais i'w plentyn fynychu unrhyw ysgol, mewn unrhyw awdurdod lleol, yn amodol ar feini prawf derbyn i'r ysgol honno/ awdurdod lleol hwnnw ac ar yr amod bod gan yr ysgol ddigon o le. Dylai ymholiadau gael eu gwneud i awdurdod derbyn yr awdurdod lleol

hwnnw i gychwyn.

## H. GWNEUD CAIS AM LE

**Rhaid** i gais am le mewn ysgol benodol gael ei wneud ar y ffurflenni swyddogol i'r awdurdod lleol neu'n uniongyrchol i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a gynorthwyr. Bydd y meini prawf cyhoeddedig mewn perthynas â *“Beth sy'n Digwydd Pan fo Gormod o Blant yn Gwneud Cais am Leoedd?”* yn gosod yr holl geisiadau yn nhrefn blaenoriaeth derbyniadau. Mae'r awdurdod lleol yn cynnig lleoedd yn ystod y tymor cyn y disgwylir i'r plentyn ddechrau ysgol. Dylai rhieni/gofalwyr wneud cais erbyn 20 Hydref 2017, i gael ei dderbyn i ysgol uwchradd ym mis Medi 2018 ac erbyn 17 Tachwedd 2017 ar gyfer derbyn i ddosbarth derbyn mewn ysgol gynradd ym mis Medi 2018; ac erbyn 15 Rhagfyr ar gyfer derbyn i ddosbarth meithrin ym mis Medi 2018. Bydd yr Awdurdod yn hysbysu rhieni/gofalwyr a yw'n bosibl ai peidio i'w plentyn fynychu'r ysgol ddewisol. Mae croeso i rieni/gofalwyr drafod eu cais gyda'r Pennaeth a fydd, os yw'n briodol, yn trefnu i rieni/gofalwyr ymweld â'r ysgol.

Mae pob ysgol yn cynhyrchu prospectws sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol â manylion ei nodau a'i chredoau addysgiadol, trefniadaeth, cyfleoedd cwricwlaidd, ac unrhyw weithgareddau all-gwricwlaidd. Mae prospectws ysgol ar gael oddi wrth y Pennaeth neu'r Adran Ysgolion.

## I. AMSERU'R BROSES DDERBYN

### Derbyn i ysgol uwchradd

Dylai cais i gael eich derbyn i ysgol uwchradd (Blwyddyn 7) gael ei gyflwyno i'r Adran Ysgolion erbyn 20 Hydref 2017 a chaiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu ar 1 Mawrth 2018.

Bydd unrhyw gais i gael eich derbyn i ysgol uwchradd, a gaiff ei wrthod, yn cael cynnig apêl a bydd rhaid cyflwyno hwnnw erbyn 15 Mawrth 2018.

### Derbyn i ysgol gynradd

Dylai cais i gael eich derbyn i ddosbarth derbyn ysgol gael ei gyflwyno i'r Adran Ysgolion erbyn 17 Tachwedd 2017 a chaiff rhieni/gofalwyr eu hysbysu ar 16 Ebrill 2018.

Bydd unrhyw gais i gael eich derbyn i ddosbarth derbyn, a gaiff ei wrthod, yn cael cynnig apêl a bydd rhaid cyflwyno hwnnw erbyn 1 Mai 2018.

Os bydd cais am apêl yn aflwyddiannus, byddwch yn cael cynnig gwrandawriad gan banel apêl annibynnol.

**Caiff ceisiadau hwyr** eu derbyn ar yr amod bod rheswm dros eu cyflwyno ar ôl y dyddiad cau a roddwyd. Fodd bynnag, caiff ceisiadau mewn perthynas â 'phlant sy'n derbyn gofal' neu blant â datganiadau AAA, gan enwi ysgol benodol, eu derbyn pan fydd ceisiadau o'r fath yn cael eu derbyn.

## J. BETH SY'N DIGWYDD PAN FO GORMOD O BLANT YN GWNEUD CAIS AM LEOEDD?

Os yw'r nifer o ddewisiadau a dderbynnir ar gyfer ysgol yn is na nifer derbyn yr ysgol, bydd

pob cais derbyn i'r ysgol yn cael ei ganiatáu. Ni ellir cadw lle i blant 'yn y dalgylch' oni bai eu bod yn blant oedran dosbarth derbyn sydd â rhieni sydd wedi gwneud cais iddynt gael oedi cael eu derbyn i ysgol tan ddyddiad diweddarach yn ystod yr un flwyddyn ysgol.

Os oes yna fwy o ymgeiswyr nac sydd yna o leoedd ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn cymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio canlynol er mwyn dynodi dyraniad y lleoedd sydd ar gael:

**Categori Blaenoriaeth 1:** Plant 'sy'n derbyn gofal' (plant mewn gofal cyhoeddus) a phlant oedd arfer 'derbyn gofal'.

**Categori Blaenoriaeth 2:** Plant y mae eu cartref y tu fewn i ddalgylch yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n mynychu'r ysgol o'r un cyfeiriad, ar ddyddiad y cais, ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ym mis Medi 2018.

**Categori Blaenoriaeth 3:** Plant y mae eu cartref y tu fewn i ddalgylch yr ysgol ond sydd heb frawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol.

**Categori Blaenoriaeth 4:** Plant y mae eu cartref y tu allan i ddalgylch yr ysgol ac sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n mynychu o'r un cyfeiriad, ar ddyddiad y cais, ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ym mis Medi 2018.

**Categori Blaenoriaeth 5:** Plant y mae eu cartref y tu allan i ddalgylch yr ysgol ac sydd heb frawd neu chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r cyfeiriad at 'cartref' yn y categorïau gordanysgrifio uchod a'r 'penderfynydd' isod yn cyfeirio at wir leoliad yr anedd breswyl y mae'r plentyn yn byw ynddo. **Nodwch:**

- na ellir cymryd trefniadau gofal plentyn na lleoliad gwaith rhiant i ystyriaeth wrth gymhwyso meini prawf.
- Nid yw'r dyddiad mae rhiant/gofalwr yn gofyn i ysgol osod enw ei blentyn ar ei rhestr gychwynnol yn faen prawf ar gyfer mynediad ac nid yw'n gwarantu lle; y cyfan y mae'n ei wneud yw galluogi ffurflen gais i gael ei hanfon allan ar yr amser cywir.
- Bydd plant yn cael eu dosbarthu fel brodyr a chwiorydd os -
  - (a) maen nhw'n hanner brawd neu chwaer neu'n frawd neu chwaer gyfan
  - (b) maen nhw'n frawd neu chwaer wedi mabwysiadu
  - (c) maen nhw'n blant sy'n byw amser llawn/yn barhaol yn yr un cartref
- Noder nad yw cefndryd, neiaint na nithoedd yn cael eu hystyried i fod yn frodyr neu'n chwiorydd.
- Mewn perthynas ag ysgol uwchradd, rhaid i frodyr a chwiorydd fod ym Mlynnyddoedd 7 i 11 yr ysgol berthnasol ym mis Medi 2018.

## **Penderfynydd**

Bydd plant yn cael eu derbyn hyd at y Nifer Derbyn yn nhref blaenoriaeth yr amlinellir uchod. Os, oddi fewn i unrhyw un o'r categorïau a restrwyd, na ellir cynnig lle i'r holl ymgeiswyr, bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i blentyn sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff pellter ei fesur gan yr awdurdod yn defnyddio'r daith gerdded ddiogel agosaf rhwng y cyfeiriad cartref a'r gât ysgol agored agosaf. Bydd plant yn cael eu derbyn hyd at y Nifer Derbyn yn ôl y flaenoriaeth a amlinellwyd uchod. Er mwyn osgoi amheuaeth, mewn ardaloedd pan nad oes taith gerdded ddiogel wedi ei dynodi gan yr awdurdod, bydd y daith yrru fyrraf rhwng cyfeiriad y cartref a'r gât ysgol agored agosaf yn cael ei defnyddio. Caiff y

pellter ei fesur drwy ddefnyddio system electronig 'mapio ysgolion' yr Awdurdod yn unig, er mwyn sicrhau cydraddoldeb cyfle i bob cais. Ni chaiff mesuriadau a gyfrifir gan unrhyw system arall eu hystyried. Y cyfeiriad cartref, mewn enghreifftiau pan fo rhieni yn rhannu cyfrifoldeb dros eu plant, fydd y cyfeiriad y caiff Budd-dal Plant ei dalu iddo.

Bydd plant sy'n 'Derbyn Gofal' hefyd yn cael eu derbyn i ysgol ddewisol y tu allan i'r rownd derbyniadau arferol. Ni ellir gwrthod eu derbyn oni bai y byddai gwneud hynny'n peri rhagfarn ddifrifol o ran darparu addysg effeithiol neu ddefnydd effeithiol o adnoddau.

## **K. GWIRIO GWYBODAETH**

### **1. Cyfeiriad Cartref**

Dylid atodi'r dilysiad cyfeiriad at y ffurflen gais, er enghraifft Datganiad y Dreth Gyngor, bil gwasanaeth diweddar, cyfnewidiad contractau. Rhaid mai cyfeiriad cartref parhaol y plentyn yw hwn. Caiff unrhyw le sy'n cael ei gymeradwyo ar sail breswyl ei dynnu yn ôl os nad yw'r disgybl yn breswlydd parhaol mwyach yn y cyfeiriad ar ddechrau tymor yr ysgol y mae'r cais yn berthnasol iddo.

### **2. Angen Meddygol**

Plant sy'n cael eu hargymell am le oherwydd rhesymau meddygol, seicolegol neu arbennig (rhaid cadarnhau'r rhain gyda chynghorwyr proffesiynol yr Awdurdod).

### **3 Genedigaethau Lluosog**

Os, wrth gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, bod y plentyn olaf i'w dderbyn yn un o enedigaeth luosog e.e. efeilliaid, tripledi, yna bydd yr Awdurdod yn ystyried rhoi mynediad i'r brawd/chwaer; brodyr/chwiorydd hefyd, ond bydd yn rhoi'r sylw dyledus i ddeddfwriaeth maint dosbarth babanod.

### **4. Personél gwasanaethau DU**

Bydd plant i bersonél gwasanaethau'r DU yn cael eu trin yn yr un modd â dalgyrch os yw eu ffurflen gais yn atodi llythyr oddi wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn neu Swyddfa Dramor neu Gymanwlad, yn datgan dychweliad pendant a chadarnhad o'r cyfeiriad newydd.

## **L. BETH SY'N DIGWYDD OS NAD YW PLENTYN YN CAEL CANIATÂD AM LE?**

Rhaid i bob ysgol a gynhelir (yn cynnwys ysgolion â chymeriad crefyddol dynodedig), sydd â digon o leoedd ar gael, gynnig lle i bob plentyn sydd wedi gwneud cais.

Yn y mwyafrif helaeth o achosion, caiff plant gynnig lle yn yr ysgol sy'n ddewis cyntaf i'w rhieni/gofalwyr. Os nad yw plentyn yn gallu cael ei dderbyn i ysgol ddewisol, bydd angen i rieni/gofalwyr benderfynu a ydyn nhw'n barod i dderbyn lle a gynigiwyd mewn ysgol arall, neu a ydynt am barhau gyda'u cais cyntaf. Os yw rhieni/gofalwyr yn dewis yr ail beth yna maen nhw'n gallu apelio i'r Panel Apelio Annibynnol. Bydd y Panel Apelio Annibynnol yn barnu a yw ysgol yn llawn, ac os felly, a yw ple y rhieni/gofalwyr yn ddigon cryf fel y dylid cynnig lle i'r plentyn. Cyn bod rhieni/gofalwyr yn apelio, maen nhw'n cael eu cynghori i

ystyried meini prawf derbyn yr ysgol/awdurdod lleol. Dylid nodi mai dim ond disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â'r hawl i apelio.

Mae gan yr awdurdod lleol bŵer statudol i gyfeirio corff llywodraethu ysgol a gynhelir, **nad** yw'n awdurdod derbyniadau ar ei chyfer, i dderbyn unrhyw blentyn pan fo'r plentyn wedi ei wrthod o ran cael ei dderbyn i bob ysgol sydd o bellter rhesymol o gartref y plentyn. Nid yw'n angenrheidiol i'r awdurdod lleol ddefnyddio'r pŵer hwn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, gan nad oes gan ysgolion o'r fath y pŵer i wrthod derbyniadau.

Ers cyflwyno rheoliadau o ran maint dosbarthiadau babanod, mae'n bosibl y bydd awdurdodau derbyn yn gwrthod derbyn plentyn i ysgol pan fyddai derbyn yn gorfodi'r ysgol i gymryd mesurau megis cyflogi athro ychwanegol neu adeiladu ystafell ddosbarth ychwanegol er mwyn cydsynio â'r cyfyngiadau newydd. Mewn apêl yn erbyn derbyn, bydd y Panel Apeliadau ddim ond yn gallu cynnal apêl os nad oedd y penderfyniad yn un y byddai awdurdod derbyn rhesymol yn ei wneud o dan amgylchiadau'r achos neu y byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle os byddai'r polisi derbyn wedi ei weithredu'n gywir.

**Noder: nid oes hawl apelio am leoedd meithrin neu leoedd cyn-meithrin.**

## **M. DERBYNIADAU AR GANOL TYMOR**

Gall amgylchiadau godi ble mae'r rhiant/gofalwr yn ystyried bod trosglwyddo i ysgol wahanol, y tu allan i'r rownd derbyniadau arferol, yn briodol. Ni fyddai penderfyniad o'r fath yn cael ei gymryd yn ysgafn. Dylai rhieni/gofalwyr feddwl yn ofalus cyn gwneud cais o'r fath. Mae'n bosibl na fyddai newid ysgol yn ateb derbynol ac fe allai wneud y sefyllfa'n waeth. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu fod lefelau cyrhaeddiad plentyn sy'n symud ysgol, yn enwedig ym Mlynnyddoedd 10 ac 11, yn gallu bod yn is na'r rheini sy'n aros yn yr un ysgol drwy gydol eu haddysg uwchradd. Wrth benderfynu a ydych am drosglwyddo, fe fyddai'n werth ystyried nifer o ffactorau pwysig iawn:

- 1. Ysgol Bresennol** – A yw problemau presennol y mae'r plentyn yn delio â nhw wedi cael eu trafod â'r Pennaeth? Mewn nifer o achosion, gall ysgolion roi mesurau mewn lle i ddelio ag unrhyw broblemau sydd gan y plentyn e.e. bwlio neu anhawster gyda gwaith. Beth bynnag yw'r broblem, mae'n bosibl na fyddai newid ysgol yn ei ddatrys.
- 2. Cwricwlwm/Arholiadau** - Er bod Cwricwlwm Cenedlaethol yn bodoli y mae disgwyl i bob plentyn ei ddilyn, mae'n bosibl y bydd ysgolion yn dysgu rhannau o'r cwricwlwm mewn trefn wahanol ac ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Os bydd eich plentyn yn newid ysgol, mae'n bosibl y bydd yn colli allan ar waith pwysig ac y bydd canlyniadau arholiadau'n dioddef o ganlyniad. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ym Mlynnyddoedd 10 ac 11. Fodd bynnag, ni ddylid gwrthod ceisiadau am fod plentyn wedi dilyn cwricwlwm gwahanol mewn ysgol flaenorol.
- 3. Trafnidiaeth** - Os bydd plentyn yn symud i ysgol y tu allan i'w ddalgylch dynodedig, **ni** fydd yr awdurdod lleol yn darparu trafndiaeth am ddim i'r ysgol honno. Mae'n bosibl y byddai taith i'r ysgol newydd yn cynnwys bysiau ychwanegol, costau ychwanegol ac amser teithio ychwanegol.

**Os yw rhieni/gofalwyr yn parhau'n ansicr ynghylch symud eu plentyn – trafodwch y peth!**

Ceir nifer o unigolion yn yr ysgol a thu allan iddi y gall rhieni/gofalwyr siarad â nhw ynghylch trosglwyddo:

Tîm Derbyn Ysgolion (**Ffôn: 01685/724620**); Pennaeth; Pennaeth Blwyddyn, Swyddog Cynhwysiant Addysg; Athro Cymorth Ymddygiad; Gwasanaeth LACES.

**Oa yw rhieni/gofalwyr wedi ystyried yr holl faterion hyn a'u bod yn parhau i fod eisiau trosglwyddo ysgolion yna bydd angen iddynt ofyn am 'Ffurflen Cais am Dderbyn i Ysgol' oddi wrth yr Adran Ysgolion, Tîm Derbyn Ysgolion, Uned 5, Parc Busnes Triangl, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TQ (Ffôn. 01685 724620)**

Ar ôl derbyn cais am dderbyn/trosglwyddo, bydd rhiant/gofalwr yn derbyn ffurflen gais oddi wrth y man cyswllt cyntaf. Ar ôl derbyn y ffurflen, caiff y cais ei ystyried yn ddiymdroi a rhoddir gwybod beth yw'r penderfyniad ffurfiol un ai i gynnig, neu wrthod lle, i'r ymgeisydd ymhen 15 diwrnod ysgol.

Os yw rhieni/gofalwyr yn gwendud cais derbyn/trosglwyddo i ysgol wirfoddol a gynorthwyr dylid gofyn am ffurflen gais briodol oddi wrth gorff llywodraethu'r ysgol dan sylw.

## **N. DERBYN I'R CHWECHED DOSBARTH**

Mae mynediad i'r ddarpariaeth hon drwy Goleg Merthyr bellach. Mae disgyblion o Ferthyr Tudful sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynychu Ysgol Rhydywaun yn Rhondda Cynon Taf sy'n darparu darpariaeth chweched dosbarth Cyfrwng Cymraeg.

## **O. RHESTRAU AROS**

Mae'r awdurdod lleol yn cadw rhestr aros ar gyfer yr ysgolion mwy poblogaidd a allai fod wedi eu gordanysgrifio. Yn dilyn dyrannu'r lleoedd yn ystod y rownd derbyn arferol, bydd unrhyw ddisgybl sydd wedi cael ei wrthod i ysgol a gordanysgrifiwyd yn aros ar y rhestr, a fydd yn cael ei chadw tan 30 Medi. Yn dilyn hynny, bydd disgwyl i rieni/gofalwyr wneud cais o'r newydd am dderbyn i'w hysgol ddewisol. Mae derbyniadau mewn perthynas â disgyblion ar restrau aros yn cael eu pennu drwy gymhwyso'r meini prawf gordanysgrifio, nid gan faint o amser mae plentyn wedi bod ar y rhestr aros.

**Niferoedd Derbyn mewn ysgolion a gynhelir**

<b>Enw'r Ysgol</b>	<b>Capasiti</b>	<b>Nifer Derbyn</b>
Ysgol Gymunedol Abercannaid	210	30
Ysgol Gynradd Bedlinog	120	17
Ysgol Gynradd Caedraw	210	30
Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa	329	47
Ysgol Gynradd Dowlais	210	30
Ysgol Gynradd Edwardsville	311	44
Ysgol Gynradd Gellifaelog	240	30
Ysgol Gynradd Goetre	349	49
Ysgol Gynradd Gwaunfarren	264	37
Ysgol Gynradd Heolgerrig	210	30
Ysgol Gynradd Pantysgallog	237	33
Ysgol Gynradd Trelewis	210	30
Ysgol Gynradd Troedyrhiw	253	40
Ysgol Gymunedol Twynyrodyn	315	45
Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen	270	38
Ysgol Gynradd Coed y Dderwen	210	30
Ysgol Rhyd y Grug	210	30
Ysgol Santes Tudful	390	55
Ysgol Gynradd y Graig	210	30
Ysgol Uwchradd Afon Taf	875	175
Ysgol Uwchradd Cyfarthfa	1,176	235
Ysgol Uwchradd Pen- y- Dre	737	147